

## Cwestiynau Cyffredin am y Stiwdio Gysylltiedig Addysg Uwch

- Cynnwys y dudalen hon:
- Beth yw Stiwdio Gysylltiedig Addysg Uwch 2013?
- Pwy gaiff wneud cais?
- Pam ddylwn i wneud cais?
- Beth fydd yn digwydd yn y digwyddiad?
- Beth fydd yn digwydd ar ôl hynny?
- Beth yw'r manteision i Brifysgolion?
- Beth yw'r gost?
- Ble a phryd?
- Faint o amser bydd angen i mi ei ymrwmo os caf fy newis i fod yn un o'r 10 sy'n mynd ymlaen i weithio gyda chwmnïau?
- Beth yw diffiniad 'creadigol'?
- Sut bydd y broses enwebu'n gweithio?

### Beth yw Stiwdio Gysylltiedig Addysg Uwch 2013?

Mae Stiwdio Gysylltiedig Addysg Uwch 2013 yn gyfle i fyfyrwyr ôl-raddedig ac ymchwilwyr sydd ar ddechrau eu gyrfa gymryd rhan yn rhaglen arloesi flaenllaw BBC Cymru/S4C, sef y Stiwdio Gysylltiedig.

Dull newydd o ddarparu arloesedd ar draws Cyfryngau Dyfodol y BBC yw Stiwdio Gysylltiedig y BBC, er mwyn ceisio datblygu syniadau ar gyfer nodweddion a fformatau arloesol. Y nod yw ychwanegu ystod o swyddogaethau, nodweddion neu fformatau newydd ar draws gwasanaethau ar-lein, hwyluso profiad y gynulleidfa a gwella cymaint â phosibl ar gynhyrchion cyfryngau digidol y BBC ar gyfer y dyfodol. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn <http://www.bbc.co.uk/partnersandsuppliers/connectedstudio/>

Menter newydd yw'r Stiwdio Gysylltiedig Addysg Uwch mewn partneriaeth â BBC Cymru/S4C sy'n cael ei threialu yn 2013 er mwyn i'r rhai sy'n cymryd rhan gael profiad o fformat y Stiwdio Gysylltiedig. Bydd cyfle iddynt hefyd weithio gydag asiantaethau digidol, cwmnïau technoleg cychwynnol a dylunwyr a datblygwyr unigol (gan gynnwys staff y BBC) sy'n llwyddiannus yn Stiwdio Gysylltiedig fwy y BBC.

Bydd y cyfranogwyr a ddewisir i symud ymlaen ar ôl digwyddiad cychwynnol y Stiwdio Gysylltiedig Addysg Uwch ar 27 Tachwedd 2013 yn cael cynnig lle i gysylltu â chydweithrediadau busnes llwyddiannus sy'n gweithio gyda BBC Cymru/S4C i gyflwyno prosiectau arloesol a allai gael eu comisiynu yn 2014.

Bydd cymryd rhan yn helpu'r cyfranogwyr i ddarganfod:

- Sut i weithio gyda busnesau yn y Diwydiant Creadigol, fel y BBC/S4C, ac ymgysylltu â hwy
- Sut i ddatblygu syniadau a throsglwyddo gwybodaeth i'r farchnad er mwyn cael effaith



Arts & Humanities  
Research Council

- Sut mae ymchwilwyr mewn disgyblaethau creadigol eraill yn mynd i'r afael â materion tebyg
- Sgiliau ac agweddau sy'n debygol o wneud ymchwil yn fwy arloesol
- Cyfleoedd ar gyfer meddwl yn greadigol a datblygu rhwydwaith gymheiriaid

Thema'r Stiwdio Gysylltiedig Addysg Uwch gyntaf fydd Radio a Cherddoriaeth Fyw. Bydd hyd at 80 o fyfyrwyr ôl-raddedig ac academyddion sydd ar ddechrau eu gyrfa yn dod at ei gilydd i ddysgu ac archwilio sut y gallant gydweithio i ddatblygu agenda ymchwil newydd a bywiog mewn cydweithrediad â BBC Cymru, S4C a Busnesau Creadigol.

### **Pwy gaiff wneud cais?**

Bydd y cyfranogwyr yn fyfyrwyr ôl-raddedig neu ymchwilwyr academiaidd sydd ar ddechrau eu gyrfa, ac mae'n rhaid iddynt fod yn gysylltiedig ag un o'r Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru (Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, Metropolitan Caerdydd, Glyndŵr, De Cymru, Abertawe, Metropolitan Abertawe, a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant).

Mae gan bob Prifysgol yng Nghymru berson cyswllt ar gyfer y Stiwdio Gysylltiedig Addysg Uwch, a fydd yn nodi ac enwebu aelodau staff ac ôl-raddedigion addas i gymryd rhan yn y Stiwdio Gysylltiedig.

Mae croeso i staff academiaidd gymryd rhan os ydynt ar ddechrau eu gyrfa ymchwil/busnes neu ar gam canolig ynddi. Diben hyn yw caniatáu i ymchwilwyr llai profiadol elwa ar y rhaglen, a rhannu syniadau a datblygu cydweithrediadau ar gyfer y dyfodol. O ran ymgeiswyr academiaidd, rydym ni'n ystyried bod 'dechrau neu ganol gyrfa' yn golygu o fewn 10 mlynedd o gwblhau PhD neu benodiad academiaidd parhaol cyntaf.

Disgwylir i enwebeion academiaidd fod â statws ôl-ddoethurol neu feddu ar brofiad cyfwerth mewn ymchwil /diwydiant. Bydd ymgeiswyr sydd wedi cwblhau PhD sy'n aros am gael ei asesu yn cael eu hystyried, ond bydd yn rhaid iddynt ddangos eu bod yn bodloni'r diffiniad o ymchwilydd academiaidd gweithredol.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn gwneud cais, cysylltwch â Hannah Raybould ar [hannah.raybould@southwales.ac.uk](mailto:hannah.raybould@southwales.ac.uk) i gael gwybod pwy yw'r unigolyn arweiniol yn eich Prifysgol.

### **Pam ddylwn i wneud cais?**

Bydd y Stiwdio Gysylltiedig Addysg Uwch yn:

- Eich helpu i ddysgu am brosesau arloesi a chomisiynu ein darlledwyr allweddol, BBC Cymru ac S4C;
- Eich helpu i ddatblygu rhwydwaith o gymheiriaid yn y gymuned ymchwil, gan sbarduno gwaith rhyngddisgyblaethol posibl;
- Eich cyflwyno i ffyrdd newydd o feddwl a gweithio ac yn gwella eich effeithiolrwydd o fewn a'r tu hwnt i'ch sefydliad;
- Sicrhau bod eich ymchwil yn cael mwy o effaith, trwy archwilio sut y gallwch ryngweithio'n fwy effeithiol ag academyddion eraill, a busnesau creadigol.

## **Beth fydd yn digwydd yn y digwyddiad?**

Bydd y Stiwdio Gysylltiedig Addysg Uwch yn cael ei chynnal ar ddydd Mercher 27 Tachwedd yng Nghampws ATRiuM Prifysgol De Cymru yng Nghaerdydd. Bydd y gweithdai a'r heriau'n cael eu harwain gan staff y BBC, academyddion arloesol ac entrepreneuriaid yn y diwydiannau creadigol. Cynllunnir y rhain i roi profiad i'r cyfranogwyr o gymryd rhan mewn digwyddiad Stiwdio Gysylltiedig.

Bydd y cyfranogwyr yn datblygu gwybodaeth, cysylltiadau rhwydweithio a meysydd posibl ar gyfer gwaith cydweithredol. Rhoddir pwyslais ar ddatblygu sgiliau ar gyfer rhyngweithio a goblygiadau gweithio gyda busnesau ac academyddion, trwy gyflwyno astudiaethau achos a chyfranogiad uniongyrchol busnesau yn y Ganolfan Greadigol ('Creative Crucible').

## **Beth fydd yn digwydd ar ôl hynny?**

Ar ôl y Stiwdio Gysylltiedig Addysg Uwch, bydd rhai cyfranogwyr yn cael eu gwahodd i weithio gydag asiantaethau digidol, cwmnïau technoleg cychwynnol a dylunwyr a datblygwyr unigol (gan gynnwys staff y BBC) sy'n llwyddiannus yn Stiwdio Gysylltiedig lawn y BBC. O ran ymchwilwyr academiaidd, disgwylir i'r Rhaglen Ymwybyddiaeth Strategol roi cyfle iddynt ddatblygu a pharhau â'u cydweithrediadau â busnesau creadigol a BBC Cymru /S4C.

## **Beth yw'r manteision i Brifysgolion?**

Bydd cael eich dewis ar gyfer y rhaglen hon o fudd i'ch Prifysgol yn ogystal â chi eich hun. Bydd y Stiwdio Gysylltiedig Addysg Uwch yn eich helpu i ddatblygu eich sgiliau creadigol ac arloesol a byddwch yn elwa ar eich rhwydwaith ehangach yn y gymuned ymchwil.

## **Beth yw'r gost?**

Disgwylir i Brifysgolion y cyfranogwyr dalu am unrhyw gostau teithio a llety sy'n gysylltiedig â dod i'r Stiwdio Gysylltiedig Addysg Uwch. Bydd Rhwydwaith Cyfnewidfa Greadigol Cymru yn talu am y costau ar y diwrnod, gan gynnwys arlwyyo, trwy'r arian a gawn gan y Cyngor Ymchwil i'r Celfyddydau a'r Dyniaethau.

## **Ble a phryd?**

Bydd y Stiwdio Gysylltiedig Addysg Uwch yn cael ei chynnal ar 27 Tachwedd 2013 yng Nghampws ATRiuM Prifysgol De Cymru yng Nghaerdydd.

Os cewch eich enwebu i gymryd rhan, byddwn yn cymryd bod hynny'n golygu eich bod chi ar gael ar gyfer y dyddiad hwn, ac y byddwch yn bresennol os cewch eich dewis.

Bydd yr amgylchedd yn annog meddwl yn rhydd ac yn agored, rhwydweithio a chydweithredu. Bydd manylion llawn am y lleoliad, sut i gyrraedd a'r trefniadau llety yn cael eu hanfon at y cyfranogwyr bythefnos cyn y digwyddiad.

Dyma'r dyddiadau allweddol i'w hystyried:

1 Tachwedd - Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau trwy Formstack

8 Tachwedd - Cadarnhau'r cyfranogwyr a ddewiswyd

12 Tachwedd - Brîff yn cael ei gyhoeddi gan y BBC/S4C

27 Tachwedd - Diwrnod Stiwdio Greadigol yng Nghampws ATRium Prifysgol De Cymru, Caerdydd

3 Rhagfyr (ar gyfer y 10 a ddewisir i symud ymlaen) - Diwrnod Diwydiant Stiwdio Greadigol, Caerdydd

**Faint o amser bydd angen i mi ei ymrwymo os caf fy newis i fod yn un o'r 10 sy'n mynd ymlaen i weithio gyda chwmnïau?**

Bydd angen i chi fod yn bresennol yn y diwrnod Stiwdio Gysylltiedig ar gyfer Diwydiant ar 3 Rhagfyr a'r digwyddiadau adeiladu dau ddiwrnod ym mis Chwefror. Byddwch hefyd yn cael y cyfle i wneud cais i gydweithredu â chwmni cynhyrchu digidol o'r DU am oriau ychwanegol rhwng mis Chwefror a mis Mehefin.

**Beth yw diffiniad 'creadigol'?**

Mae gennym ni ddiddordeb mewn ymgeiswyr sy'n gallu dangos cysylltiad rhwng eu gwaith â'r disgyblaethau creadigol. Nid ydym yn diffinio'r disgyblaethau a ddylai gael eu cynrychioli yn y Stiwdio Gysylltiedig Addysg Uwch; yn hytrach, rydym yn gofyn i gyfranogwyr posibl ddangos sut y gallai eu harbenigedd a'u syniadau fodloni anghenion y brîff.

Croesewir arbenigedd o ystod eang iawn o ddisgyblaethau, ac ni ddylai ymgeiswyr deimlo bod angen iddynt aros o fewn canfyddiadau confensiynol: mae ein hymagwedd yn cydnabod manteision dod â phobl ynghyd na fyddent yn rhyngweithio â'i gilydd fel arfer.

Rydym yn awyddus i bobl wneud cais sy'n arbenigwyr yn eu meysydd ymchwil eu hunain, ond sy'n dymuno cymhwyso'r arbenigedd hwnnw i'r brîff ochr yn ochr â disgyblaethau creadigol eraill.

Mae diffiniad confensiynol yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn cydnabod deuddeg *sector creadigol*, sef:

- Hysbysebu
- Pensaerniaeth
- Marchnadoedd hen bethau a'r celfyddydau
- Crefft
- Dylunio (gweler dylunio cyfathrebu hefyd)
- Dylunio ffasiwn
- Ffilm, fideo a ffotograffiaeth
- Meddalwedd, gemau cyfrifiadurol a chyhoeddi electronig
- Cerddoriaeth a'r celfyddydau gweledol a pherfformio
- Cyhoeddi
- Teledu
- Radio (yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon 2006)

Rydym hefyd yn croesawu (ac yn annog) enwebiadau ar gyfer ymchwilwyr yn nisgyblaethau eraill y celfyddydau a'r dyniaethau (e.e. Hanes, Saesneg) yn ogystal ag ymgeiswyr o

gefndiroedd peirianegol a thechnolegol a allai gymhwyso eu gwybodaeth a'u harbenigedd i arwain at ganlyniadau creadigol.

### **Sut bydd y broses enwebu'n gweithio?**

Bydd enwebiadau i gymryd rhan yn cael eu gwneud gan gynrychiolwyr arweiniol pob Prifysgol yng Nghymru.

Os ceir gormod o geisiadau i gymryd rhan yn y Stiwdio Gysylltiedig Addysg Uwch, bydd enwebiadau'n cael eu hystyried gan banel dethol yn cynnwys aelodau o grŵp llywio Rhwydwaith Cyfnewidfa Greadigol Cymru er mwyn sicrhau cymysgedd o ddisgyblaethau a phrofiad. Yn gyffredinol, bydd y panel yn ceisio sicrhau bod cydbwysedd o arbenigedd yn bresennol yn y Stiwdio Gysylltiedig Addysg Uwch.

Y meini prawf ar gyfer dewis cyfranogwyr fydd:

- Y potensial i ddatblygu syniadau ymchwil newydd, arloesol a gwreiddiol sy'n gysylltiedig â'r brîff
- Y potensial i gyfrannu at ymchwil ar y cam lle y ceir rhyng-gysylltiad rhwng disgyblaethau creadigol
- Yr effaith debygol i'r cyfranogwr yn sgil cymryd rhan yn y Stiwdio Gysylltiedig Addysg Uwch

### **Cwestiynau ychwanegol**

Bydd Hannah Raybould (hyperddolen), Rheolwr Datblygu Rhwydwaith Cyfnewidfa Greadigol Cymru, yn barod i ateb unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r Stiwdio Gysylltiedig Addysg Uwch.

Os bydd canlyniad unrhyw ymholiadau yn bwysig i'r holl ymgeiswyr posibl, byddant yn cael eu hychwanegu i'r dudalen hon.